

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

272/51

TGAU  
DYLUNIO A THECHNOLEG

CWRS BYR

**MAES PENODOL: TECHNOLEG DEFNYDDIAU GWRTHIANNOL**

(Haen Sylfaenol - Graddau G i C)

P.M. DYDD MAWRTH, 5 Mehefin 2007

(1 Awr)

	Gadewch yn wag
<b>Cwestiwn 1</b>	
<b>Cwestiwn 2</b>	
<b>Cwestiwn 3</b>	
<b>Cwestiwn 4</b>	
<b>CYFANSWM Y MARCIAU</b>	

### DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Bydd angen offer lluniadu sylfaenol a phensiliau lliw arnoch ar gyfer yr arholiad hwn.

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes gennych ddiagon o le, cewch barhau â'ch ateb yng nghefn y llyfryn, gan ofalu nodi rhif y cwestiwn yn gywir.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch bob cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.*

1. (a) Mae angen i ddylunydd wneud ymchwil cyn dylunio tegan newydd ar gyfer plentyn tair blwydd oed.



**Tynnwch linell i gysylltu'r gweithgaredd ymchwil â'r wybodaeth sy'n cael ei darganfod.**  
*Mae un enghraifft wedi'i gwneud i chi.* 3 × [1]

<b>Gweithgaredd Ymchwil</b>	<b>Gwybodaeth sy'n cael ei darganfod</b>
Edrych ar dablau o feintiau plant	Beth mae plant yn gallu ei wneud
Darllen llyfr am ddatblygiad y plentyn	Maint dwylo plant
Edrych ar wefan am briodweddau defnyddiau	Dod o hyd i'r lliw mwyaf poblogaidd
Siarad â phlentyn tair blwydd oed	Diogelwch defnyddiau

- (b) **Rhowch dri** phryder am ddiogelwch a all fod gan riant wrth brynu tegan. 3 × [2]

Pryder 1: .....

.....


Pryder 2: .....

.....

Pryder 3: .....

.....

2. Mae gwerthiant y grawnfwyd brechwast a ddangosir isod yn gostwng.



Cynhwysion:

Reis, rhyg (*rye*), ceirch, mêl, siwgr, halen.

	Maint dyddiol a argymhellir	Pob cyfran gyda llaeth	% o'r maint dyddiol a argymhellir
Caloriau 2000kcal		170kcal	8%
Siwgr	90g	27.8g	30%
Halen	6g	0.8g	14%
Braster dirlawn	20g	2.4g	12%
Braster	70g	4.0g	6%

- (a) **Astudiwch** y lluniau uchod a **rhowch ddau** reswm pam mae gwerthiant y grawnfwyd hwn wedi gostwng yn eich barn chi. 2 × [2]




Rheswm 1: .....

.....

Rheswm 2: .....

.....

(b) Mae'r lluniau isod yn dangos tri thegell.

			
Tegell	A	B	C
Cost	£4.99	£19.99	£37.99
Defnyddiau	Plastig Gwyn	Dur Gwrthstaen	Plastig Newid Lliw
Wedi'i wneud yn	China	Ewrop	Y DU
Cynhwysedd dŵr	1.5 Litr	1 Litr	2.3 Litr

(i) **Nodwch** pa degell sy'n dal y mwyaf o ddŵr. [1]

.....

(ii) **Nodwch** pa degell yw'r un hawsaf ei ddefnyddio (*easiest to use*) yn eich barn chi a **rhowch ddau** reswm dros eich dewis. 2 × [1]

Tegell ..... yw'r un hawsaf ei ddefnyddio.

Rheswm 1: .....

.....

Rheswm 2: .....

.....

(iii) Er ei fod yn ddrud, byddai rhai pobl yn penderfynu prynu tegell C. **Rhowch un** rheswm dros hyn. [2]

.....

.....

(iv) **Nodwch** bris tegell A. [1]

.....

(v) **Rhowch ddau** reswm pam y gellir gwerthu tegell A am y pris hwn. 2 × [2]

Rheswm 1: .....

.....

Rheswm 2: .....

.....

3. (a) Enw un rhan o'r broses ddylunio yw *datblygu*. **Ticiwch** (✓) y **tri** gweithgaredd yn y tabl isod sy'n rhan o *ddatblygu*. 3 × [1]

Profi'r cynnyrch gorffenedig.	
Penderfynu ar feintiau terfynol.	
Rhoi cynnig ar wahanol ddefnyddiau a gorffeniadau.	
Meddwl am ffyrdd posibl o uno rhannau â'i gilydd.	
Lluniadu syniadau cychwynnol ar gyfer y cynnyrch.	

- (b) **Disgrifiwch ddwy** ffordd y gallai TGCh/CAD gael ei defnyddio i helpu i ddatblygu cynnyrch newydd. 2 × [2]

(I) .....

.....

(II) .....

.....

- (c) Ar gyfer cynnyrch o'ch dewis, **disgrifiwch ddwy** o fanteision defnyddio CAM (gweithgynhyrchu drwy gymorth cyfrifiadur) i wneud y cynnyrch. 3 × [1]

Cynnyrch: .....

Mantais 1: .....


Mantais 2: .....

- (ch) **Disgrifiwch un** mater (*issue*) amgylcheddol a ddylai gael ei ystyried wrth *ddylunio* cynhyrchion. [2]

.....

.....

4. Mae adran gerddoriaeth eich ysgol wedi gofyn i chi ddylunio stand cludadwy (*portable*) i ddal cerddoriaeth ddalen (*sheet music*). Bydd yn cael ei roi ar ben bwrdd a'i ddefnyddio wrth ganu offerynnau.



### Manyleb

Rhaid i'r dyluniad:

- bod yn gludadwy, sefydlog ac addas i'w ddefnyddio ar ben bwrdd;
- dal llyfryn cerddoriaeth A4;
- ei gwneud yn bosibl darllen y gerddoriaeth yn hawdd wrth ganu offeryn.

(a) **Brasluniwch** eich datrysiad ar y dudalen gyferbyn.

#### Rhoddir marciau am:

- |  |     |
|--|-----|
| (i) dylunio stand sy'n sefydlog;   | [4] |
| (ii) rhoi manylion llawn am sut y caiff y stand ei wneud;                | [6] |
| (iii) dangos sut mae'r gerddoriaeth ddalen yn aros yn ddiogel yn ei lle; | [3] |
| (iv) <b>dau</b> ddimensiwn pwysig;                                       | [2] |
| (v) ansawdd y cyfathrebu.  | [5] |

**Trosodd ar gyfer rhan (*b*)**

(b) **Enwch** ddefnydd yr ydych wedi'i ddefnyddio yn nyluniad eich stand cerddoriaeth a **rhowch ddau** reswm pam y mae'r defnydd hwn yn addas.

Defnydd: ..... [1]

Rheswm 1: .....

..... [2]

Rheswm 2: .....

..... [2]



